RHAGARWEINIAD

Mae'r ddogfen hon yn sail i **ymgynghoriad cyhoeddus y Cyngor ar y cynigion ar gyfer cyllideb 2012-2013.**

Ym mis Rhagfyr 2011, derbyniodd y Cyngor Ddatganiad y Comisiynwyr ar y Gyllideb a'r Strategaeth ar gyfer 2012-13 fel y rhan gyntaf o broses ymgynghori gynhwysfawr ar y gyllideb a fydd yn rhedeg drwodd i fis Mawrth 2012, pan fydd y Cyngor yn pennu yn ffurfiol ei gyllideb a'i Dreth Gyngor. Mae'r strategaeth hon yn rhoi arweiniad mewn perthynas â phenderfyniadau pwysig ar gynllunio ariannol a darparu gwasanaethau.

Yn ogystal, mae modd lawrlwytho'r ddogfen hon ynghyd â manylion llawn am y Gyllideb Refeniw Ddrafft Cychwynnol ar gyfer 2012-13 ac atodiadau cysylltiedig a gyflwynwyd i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 16 Ionawr 2010 o'n gwefan.

CYD-DESTUN

Mae gwariant cyhoeddus yn cael ei ostwng ymhob man mewn ymateb i'r dirwasgiad economaidd byd eang. Dyma fu'r achos yn y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'r rhagolygon ariannol yn annhebygol o wella gyda phwysau tebyg yn wynebu awdurdodau lleol ledled Cymru a'r DU. Mae pob awdurdod lleol yn gorfod gwneud toriadau sylweddol i'w cyllidebau a bydd hynny'n anorfod yn cael effaith ar wasanaethau.

Bydd cyllidebau Ynys Môn, yr un modd â phob awdurdod lleol arall, dan bwysau sylweddol a rhaid canolbwyntio ar well effeithlonrwydd.

Ers 1 Ebrill 2011, mae Comisiynwyr a benodwyd gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi bod yn cyflawni swyddogaethau gweithredol y Cyngor ac, ynghyd â Phrif Weithredwr dros dro newydd, maent wedi bod yn gyfrifol am yrru gwelliant trwy'r Cyngor.

Yn ei lythyr diweddaraf, a dderbyniwyd gan y Cyngor yn Awst 2011, roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn croesawu'r pwyslais y mae'r Comisiynwyr wedi ei roddi ar y canol corfforaethol a rheoli risg fel maes y mae angen ei ddatblygu ar frys. Fodd bynnag, pwysleisiwyd ganddynt '*mae llawer o waith i'w wneud o hyd i integreiddio'r defnydd o wybodaeth ariannol a gwybodaeth am berfformiad yn y gwaith o gynllunio a monitro'r modd y darperir gwasanaethau ac, yn benodol, y modd y cyflawnir y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy*'. Daeth yr adroddiad i'r casgliad '*Mae'r Comisiynwyr bellach wedi nodi meysydd allweddol ar gyfer gwella ond mae heriau sylweddol yn dod i'r amlwg o hyd. Mae'n rhy gynnar i asesu p'un a fydd y newidiadau arfaethedig yn sicrhau gwelliant cynaliadwy ai peidio.*'

Y CYD-DESTUN ARIANNOL A'R SIALENSIAU CYLLIDEBOL

Cyflwynodd y Canghellor Ddatganiad yr Hydref ar 29 Tachwedd 2011. Roedd yn cynnwys y ffigyrau diweddaraf ynghylch cyllid cyhoeddus a'r economi. Yn gyffredinol, roedd y Datganiad yn un pesimistaidd ac yn rhoddi pwyslais ar:

- Twf Is
- Cymhareb Uwch o ran Benthyca/Dyledion
- Llymder am ddwy flynedd ychwanegol hyd 2016-17

Yn Natganiad y Comisiynwyr ar y Gyllideb a'r Strategaeth yn 2012-13 a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Rhagfyr, nodwyd cyd-destun y sialensiau o ran pennu cyllideb ar gyfer 2012-13.

Roedd cyllideb ar gyfer eleni yn heriol iawn o gofio'r gostyngiad blwyddyn ar flwyddyn o £1.6m (1.7%. ar ôl addasiad). Roedd hynny'n golygu y bu'n rhaid i'r Awdurdod gymryd camau sylweddol a arweiniodd at ddatblygu'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy (RhBFf) ymhellach er mwyn sicrhau arbedion o £11m dros 3 blynedd. Yn y RhBFf, nodwyd meysydd yn yr Awdurdod a chanddynt botensial i yrru arbedion a chynhyrchu incwm ychwanegol. Mae hon yn rhaglen sy'n datblygu'n gyson ac mae'n cynorthwyo'r Awdurdod i gwrdd â'r heriau y mae'n eu hwynebu yn awr ac yn y 4 blynedd nesaf.

Er bod pennu'r gyllideb yn broses flynyddol, dylid ei hystyried fel rhan o raglen dreigl o un flwyddyn i'r llall. Cafodd y strategaeth ariannol ar gyfer y tymor canol a'r rhaglen blaenoriaethau fforddiadwy cysylltiedig eu datblygu nid yn unig i gefnogi blaenoriaethau strategol ond hefyd i gwrdd â'r sialensiau sylweddol sy'n wynebu cyllid cyhoeddus.

CYNLLUNIO'R GYLLIDEB AR GYFER 2012-13

Yn ôl ym mis Gorffennaf 2011, gofynnwyd i bob Cyfadran ddatblygu cynigion i ddod o hyd i opsiynau arbedion 5% fel paratoad ar gyfer y broses o bennu cyllideb 2012-13 a rhagwelwyd y byddai'r Cyllid Trysorlys Cyfun yn gostwng yn sylweddol yn 2012-13.

Yn Natganiad y Comisiynwyr ar y Gyllideb a'r Strategaeth, sefydlwyd hefyd yr egwyddorion isod ar gyfer sefydlu cyllideb ar gyfer 2012-13:

- Mabwysiadu bwriad i gynyddu'r Dreth Gyngor gan 5%
- Dim cynnydd mewn cyflogau
- Cynnydd o 0.5% yn y cyfraniadau i gronfa bensiwn llywodraeth leol (o 21.5% i 22%)
- Cynnydd ar gyfer chwyddiant gwirioneddol lle mae'n rhaid gwneud hynny yn unol â'r gyfraith neu trwy gontract; ar gyfer trethi annomestig ac ati.
- Chwyddiant cyfredol ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau eraill.

Mae gwarchod gwasanaethau rheng flaen wedi bod yn ganolog yn null y Cyngor o baratoi cyllidebau yn y gorffennol, a chydbwyso'r angen i ddarparu cyllid i gefnogi adfywiad a chyfleoedd o ran swyddi. Ar yr un pryd, rhaid i bob awdurdod lleol ddangos gwelliant parhaus yn y modd maent yn darparu eu gwasanaethau. Nid yw hynny'n hawdd yn yr hinsawdd gyfredol wrth i ni symud tuag at fodelau mwy cydweithredol o ddarparu gwasanaethau.

Nid oes rhaid dweud bod aelodau a'r cyhoedd yn disgwyl mwy o fesurau effeithlonrwydd ac arbedion yn y meysydd gweinyddu a rheoli wrth i wasanaethau rheng flaen gael eu rhoddi dan bwysau. Yn draddodiadol, mae Ynys Môn wedi dyrannu cyfran uwch o'i wariant i wasanaethau rheng flaen gyda strwythurau rheoli mwy diwastraff. Fodd bynnag, cafodd y methiant i fuddsoddi yn y 'canol corfforaethol' ei nodi fel gwendid mewn nifer o adroddiadau gan reoleiddwyr ac yn adroddiadau chwarterol y Comisiynwyr i Lywodraeth Cymru yn ystod 2011-12, a bydd angen cydbwyso unrhyw arbedion posibl ar gostau rheoli a gweinyddu gyda'r angen i gryfhau'r canol corfforaethol.

CYNIGION AR GYFER CYLLIDEB 2012/13

Mae gan y Cyngor gyllideb net ragamcanedig o £119m ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13. Mae hyn wedi ei wneud i fyny o £92m mewn Cyllid Trysorlys Cyfun gan Lywodraeth Cymru a £27m drwy'r Dreth Gyngor.

Mae'r rhagamcanion cyllidebol hefyd yn cymryd i ystyriaeth y rhagamcanion o ran chwyddiant a newidiadau demograffig sy'n cael effaith ar y gyllideb addysg a'r cynnydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a phriffyrdd.

Mae'r cynigion cyllidebol yn cwrdd â gofynion Llywodraeth Cymru o ran addysg a gwasanaethau cymdeithasol ond nid yw hynny'n golygu bod y ddau faes wedi ei heithrio o doriadau.

Y Dreth Gyngor

Mae'r Comisiynwyr yn cynnig cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor. Mae'r setliad is gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (i'w briodoli'n rhannol i'r penderfyniad i wneud i ffwrdd â'r cyllid "llawr") yn gwneud cynnydd yn y Dreth Gyngor a gostyngiadau yn y gwasanaethau yn anorfod.

Y Bwlch Cyllidebol

Cyn ystyried unrhyw dwf ychwanegol, mae'r gyllideb ddrafft yn tybio y bydd bwlch cyllido o £3.3 miliwn. Roedd y Datganiad ar y Gyllideb a'r Strategaeth yn cynnwys £1m ar gyfer twf. Roedd hyn yn cynyddu'r bwlch cyllido i £4.3 miliwn.

	2012-13 £m
Cyllideb y Flwyddyn Flaenorol	118.9
Cynnydd mewn Costau	3.4
Newidiadau demograffig	0.3
Ariannu cyfalaf a llog	-0.1
Lwfans twf	1.0
Arbedion	-4.3
Cyfanswm	**119.2**
Ariannwyd gan Lywodraeth Cymru	92.3
Y Dreth Gyngor	26.8
	119.2

Y Gyllideb Gyfalaf

Mae'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cael ei lleihau i raddau helaethach na'r gyllideb refeniw.

Blwyddyn Ariannol	Arwyddion cyllido o'r setliad terfynol £'m
2012-13	4.05
2013-14	3.61
2014-15	3.61

Fel yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r gyllideb hon yn cael ei threiglo ymlaen o'r flwyddyn flaenorol drwy:

- Adolygu a diweddaru cyllidebau ar gyfer gwaith cynnal a chadw cyfalaf neu gael asedau sefydlog newydd yn lle hen rai;
- Cynnwys newidiadau y gwyddys amdanynt;
- Cynnwys grantiau newydd lle gwyddys amdanynt;
- Defnyddio cyllideb cyfalaf cyffredinol Llywodraeth Cymru ynghyd ag asesiad o'r derbyniadau cyfalaf sy'n debygol o fod ar gael;
- Cynnwys swm wrth gefn o £1m;
- Cynnwys y cyfrif refeniw tai yn unol â'r cynllun 30 blynedd wedi ei ddiwygio a'i ddiweddaru.

Mae dyraniadau na chawsant eu defnyddio yn cael eu treiglo ymlaen ar sail unwaith ac am byth i wneud i fyny am y toriadau yng nghyllid y llywodraeth ac mae gwasanaethau wrthi'n datblygu cynlluniau ar gyfer y meysydd canlynol:

- Gwasanaethau i'r henoed
- Adnewyddu tai
- Tai fforddiadwy
- Rhesymoli ysgolion

MYND I'R AFAEL Â HER Y BWLCH CYLLIDO

Wrth roi sylw i'r bwlch cyllido, yr angen i wneud arbedion ar raddfa nas gwelwyd erioed o'r blaen yw'r prif fater yn strategaeth y gyllideb. Mae'r cynigion a roddwyd gerbron gan yr adrannau yn gymysgedd o arbedion, effeithlonrwydd a thorri gwasanaeth. Lle mae hynny'n bosibl, mae'r cynigion ar gyfer arbedion wedi cael eu categoreiddio (fel ffit gorau) fel a ganlyn:

	£'m
Effeithlonrwydd	0.23
Arbedion	1.27
Darparwyr Eraill	0.08
Lleihad mewn gwasanaethau dewisol	1.21
Lleihau gwasanaeth	1.93
	4.72

Caiff y prif gynigion ac opsiynau sy'n cael eu hystyried eu crynhoi isod:

Effeithlonrwydd:

- Gostyngiad yn lefel y gefnogaeth a ddarperir gan Wasanaethau Cefnogol i'r Awdurdod a gwasanaethau rheng flaen
- Datblygu Economaidd – arbedion effeithlonrwydd o ganlyniad i gynllunio ymlaen a fydd yn sicrhau bod yr effaith ar y gwasanaethau'n cael ei lliniaru drwy ddarparu gwasanaethau mewn dulliau effeithlon eraill
- Gwasanaethau Tai - ailstrwythuro'r swyddogaeth gwasanaethau tai i sicrhau eu bod yn cwrdd â'r galw. Cynhyrchu incwm o fuddsoddiadau a wnaed yn 2011-12.

Arbedion:

- Adolygu'r Cyllidebau Canolog ar gyfer Addysg gan gynnwys yr arbedion a gynhyrchwyd yn sgil yr adolygiad o Ysgol Coed Menai a'r adolygiad o'r cyllidebau presennol i sicrhau'r defnydd gorau ohonynt

- Gwasanaeth Amgueddfeydd a Diwylliant – cynnydd yn yr incwm a gynhyrchir ac adolygiad o wariant, prosiect o bosib i leihau costau ynni
- Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol – cynnydd yn yr incwm a gynhyrchir, adolygiad o'r gwasanaethau y codir amdanynt a'r rhai na chodir amdanynt er mwyn sicrhau'r incwm mwyaf posib
- Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol – gostyngiad yn y manylebau gwasanaeth o ran gwasanaethau a ddarperir i'r Cyngor
- Gwasanaethau Cymdeithasol – adolygiad o'r Gwasanaethau Plant. Arbedion a gafwyd yn sgil camau gweithredu a gymerwyd yn 2011-12 mewn perthynas â Queen's Park a Bryn Hwfa.

Darparwyr Eraill:

- Allanoli canolfan hamdden

Lleihad mewn gwasanaethau dewisol:

- Gwasanaethau Llyfrgelloedd a Gwybodaeth – gostyngiad yn yr oriau gweithredol a'r dyraniadau i gronfeydd penodol.
- Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol - cau toiledau cyhoeddus. Bydd angen mabwysiadu strategaeth arall.
- Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol - gostyngiad yn y manylebau gwasanaeth yn achos gwasanaethau a ddarperir i'r Cyngor. Gostyngiad o ran amlder y gwasanaethau a ddarperir a manyleb newydd y cytunwyd arni ar gyfer gwastraff gweddilliol.
- Gostyngiad yn lefel y gwaith cynnal a chadw a wneir ar briffyrdd ledled y sir.

Lleihau gwasanaeth:

- Adolygu'r broses gomisiynu yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau fod pecynnau gofal ar y lefel briodol
- Adolygu Cyllidebau Canolog ar gyfer Addysg i sicrhau'r defnydd gorau ohonynt
- Tynnu'n ôl y gwasanaeth parciau a chyfleusterau awyr agored
- Adolygiad o'r rhaglen weithgareddau a ddarperir ar hyn o bryd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Cau pwll nofio

Mae copi o'r adroddiad Drafft Cychwynnol o'r Gyllideb Refeniw ar gyfer 2012-13 a'r atodiadau perthnasol, sy'n cynnig rhagor o fanylder i'w darganfod ar www.ynysmon.gov.uk/ymgynghoriadau. Mae hefyd yn bosib gofyn am gopi drwy anfon ebost i ymgynghoriadcyllideb@ynysmon.gov.uk neu drwy ffonio 01248 752109.

CYNLLUN BUSNES CORFFORAETHOL 2012-15

Rydym hefyd yn ymgynghori ar ein Cynllun Busnes Corfforaethol drafft ar gyfer 2012-15 sy'n pennu nifer o ganlyniadau strategol allweddol y bydd angen eu cyflawni yn y tymor canol. Y rhain yw:

1. Bod gan Ynys Môn economi wledig sy'n ffyniannus a llewyrchus
2. Bod pobl yn Ynys Môn yn cyrraedd eu llawn potensial
3. Bod pobl yn Ynys Môn yn iach ac yn ddiogel
4. Bod pobl yn Ynys Môn yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
5. Bod pobl yn Ynys Môn yn falch o'u Cyngor.

Bydd negeseuon allweddol sy'n codi o'r ymgynghoriad ar y gyllideb yn helpu i siapio'r Cynllun Busnes Corfforaethol a'r meysydd blaenoriaeth y dylid canolbwyntio arnynt.

Gellir gweld y **drafft o'r Cynllun Busnes Corfforaethol** fel a ganlyn:

- Ei lawrlwytho o www.ynysmon.gov.uk/ymgynghoriadau
- E-bost cynllunbusnes@ynysmon.gov.uk
- Ffonio 01248 752109 am gopi caled.

RYDYM ANGEN EICH BARN

Mae Cyngor Sir Ynys Môn eisiau clywed eich sylwadau ar y sialensiau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor a'r amrediad o opsiynau sy'n cael eu crynhoi uchod o ran siapio'r cynnig terfynol ar gyfer cyllideb 2012-13.

Gadewch i ni wybod ei barn ar:

- **Y bwriad i godi'r Dreth Gyngor gan 5%**
- **Y cynigion o ran arbedion**
- **Y cynigion o ran sicrhau arbedion mewn dulliau eraill**
- **Meysydd blaenoriaeth ar gyfer buddsoddiad.**

SUT I YMATEB

Lawrlwytho:

Mae'r ddogfen hon, ynghyd â'n Cyllideb Refeniw Ddrafft Gychwynnol ar gael ar ein gwefan www.ynysmon.gov.uk/ymgynghoriadau neu gellwch ofyn am gopïau caled trwy ffonio 01248 720 109.

E-bost:

ymgynghoriadcyllideb@ynysmon.gov.uk

Post:

Ymgynghori ar Gyllideb 2012-13
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn LL77 7TW

Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar **10 Chwefror 2012**.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Rhoddir gwybod i'r Comisiynwyr am eich sylwadau ar **20 Chwefror 2012** a bydd y cynigion terfynol yn cael eu paratoi ar gyfer y Cyngor Llawn a fydd yn cyfarfod ar **6 Mawrth 2012.**

Os hoffech gael fersiwn print mawr o'r ddogfen hon, yna ffoniwch 01248 752 109